Adran Ffyniant Bro,
Tai a Chymunedau

Local Government Pensions SAB England and Wales

# Dyfarniad McCloud a'ch pensiwn o dan Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

**Mae'r daflen ffeithiau hon yn crynhoi Dyfarniad McCloud a'r newidiadau y mae'r Llywodraeth yn eu gwneud i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yng Nghymru a Lloegr.**

## Cipolwg

Efallai y bydd y newidiadau yn effeithio arnoch:

- os oeddech yn talu i mewn i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol neu gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus arall cyn 1 Ebrill 2012
- os oeddech hefyd yn talu i mewn i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol rhwng 1 Ebrill 2014 a 31 Mawrth 2022
- os ydych wedi bod yn aelod o gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus heb fwlch parhaus o fwy na 5 mlynedd


Beth yw Dyfarniad McCloud? 2
Sut mae'r CPLlL yn newid? 3
A fydd hyn yn effeithio arnaf? 4
Beth sydd angen i mi ei wneud? 7
A fydd fy mhensiwn yn cynyddu? 7
A fydd y newidiadau yn effeithio arnaf os oeddwn yn gymwys i gael amddiffyniad tanategol gwreiddiol? 8
Sut y gallaf gael rhagor o wybodaeth? 8
Dyddiadau allweddol 9

# Beth yw Dyfarniad McCloud?

Pan ddiwygiodd y Llywodraeth gynlluniau pensiwn gwasanaethau cyhoeddus yn 2014 a 2015, cyflwynwyd amddiffyniadau trosiannol ar gyfer aelodau hŷn. Ym mis Rhagfyr 2018, dyfarnodd y Llys Apêl fod aelodau iau cynlluniau pensiwn barnwrol a diffoddwyr tân wedi bod yn destun gwahaniaethu anghyfreithlon am nad oedd yr amddiffyniadau yn gymwys iddynt.*

Gelwir y dyfarniad hwn yn ddyfarniad McCloud, ar ôl aelod o'r Cynllun Pensiwn Barnwrol a oedd yn ymwneud â'r achos. Oherwydd y dyfarniad, bydd newidiadau i bob cynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus a ddarparodd amddiffyniad trosiannol, gan gynnwys Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Gelwir y newidiadau hyn yn rhwymedi McCloud a bwriedir iddynt ddileu'r gwahaniaethu ar sail oedran a nodwyd yn achos llys McCloud.

**Gelwir y newidiadau hyn yn rhwymedi McCloud a bwriedir iddynt ddileu'r gwahaniaethu ar sail oedran a nodwyd yn achos llys McCloud**

* Yr Arglwydd Ganghellor ac un arall v McCloud ac eraill
Yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Adran Gartref ac eraill v Sargeant ac eraill
[2018] EWCA Civ 2844

# Sut mae'r CPLlL yn newid?

Yn 2014, newidiodd y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL) o gynllun cyflog terfynol (pensiwn wedi'i seilio ar eich cyflog pan rydych yn gadael) i gynllun cyfartaledd gyrfa (pensiwn sy'n cronni ar sail yr hyn rydych yn ei ennill bob blwyddyn).

Roedd aelodau hŷn a oedd yn agosach at ymddeol wedi'u hamddiffyn rhag y newidiadau. Mae hyn yn golygu pan fydd aelod wedi'i amddiffyn yn cymryd ei bensiwn, mae'r buddion sy'n daladwy o dan y cynllun cyfartaledd gyrfa yn cael eu cymharu â'r buddion a fyddai wedi cronni pe byddai'r cynllun cyflog terfynol wedi parhau, ac mae'n derbyn y swm uwch. Yr enw ar yr amddiffyniad hwn yw'r tanategiad.

Er mwyn dileu gwahaniaethu ar sail oed McCloud, bydd aelodau iau sy'n gymwys yn derbyn yr amddiffyniad tanategu hefyd bellach. Daw'r newid hwn i rym ar 1 Hydref 2023. Mae amddiffyniad tanategu'n berthnasol i bensiwn a gronnwyd yn ystod cyfnod y rhwymedi yn unig, sef rhwng 1 Ebrill 2014 a 31 Mawrth 2022. Bydd y tanategiad wedi dod i ben yn gynharach os oeddech wedi gadael y cynllun neu gyrraedd oedran ymddeol arferol eich cyflog terfynol (65 oed fel arfer) cyn 31 Mawrth 2022.

Ni fydd amddiffyniad tanategu o 1 Ebrill 2022 ymlaen. Bydd pensiwn a gronnir ar ôl y dyddiad hwn wedi'i seilio ar y cynllun cyfartaledd gyrfa yn unig.

**Daw rhwymedi McCloud ar gyfer yr CPLlL i rym ar 1 Hydref 2023**

01

**1 Hydref 2023**

# A fydd hyn yn effeithio arnaf?

Byddwch yn gymwys i gael amddiffyniad tanategol os:

- Oeddech yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol neu gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus arall cyn 1 Ebrill 2012,
- Oeddech yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar unrhyw adeg rhwng 1 Ebrill 2014 a 31 Mawrth 2022 ac roedd rhywfaint neu'r cyfan o'r aelodaeth hon cyn eich oedran ymddeol arferol cyflog terfynol (65 fel arfer), a
- Nid oes gennych fwlch datgymhwyso. Mae bwlch datgymhwyso yn gyfnod parhaus o fwy na phum mlynedd pan nad oeddech yn aelod o gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus.

Os oes gennych fwy nag un cyfnod o aelodaeth Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, nid oes yn rhaid i chi gydgysylltu neu 'gyfuno' yr aelodaeth hon i fod yn gymwys ar gyfer gwarchodaeth danategol.

Os oes gennych chi aelodaeth o gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus arall cyn 1 Ebrill 2012, ni fydd yn rhaid i chi drosglwyddo'r aelodaeth honno i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i fod yn gymwys ar gyfer gwarchodaeth danategol.

**Efallai y byddwch yn gymwys i gael amddiffyniad tanategol os oeddech yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol neu gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus arall cyn 1 Ebrill 2012 ac yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar unrhyw adeg rhwng 1 Ebrill 2014 a 31 Mawrth 2022**

# A fydd hyn yn effeithio arnaf?

Byddwch hefyd yn cael eich diogelu os byddwch yn ymuno â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar ôl 1 Ebrill 2022 ac yn trosglwyddo aelodaeth o gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus arall os ydych:

- Yn cymhwyso ar gyfer amddiffyniad McCloud yn rheolau'r cynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus blaenorol, a
- Nid ydych gyda thoriad datgymhwyso.

Gallwch ddefnyddio'r adnodd ar y dudalen nesaf i weld a allai'r newidiadau effeithio arnoch chi.

**A oeddech yn talu i mewn i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol neu gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus arall cyn 1 Ebrill 2012?**

**Oeddwn**

**Nac oeddwn**

Ni fydd y newidiadau yn effeithio arnoch

**A oeddech yn talu i mewn i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn ystod cyfnod y rhwymedi (rhwng 1 Ebrill 2014 a 31 Mawrth 2022)?**

**Oeddwn**

**Nac oeddwn**

Ni fydd y newidiadau yn effeithio arnoch†

**A oeddech dan 65* oed yn ystod rhan o gyfnod y rhwymedi neu'r cyfnod cyfan?**

**Oeddwn**

**Nac oeddwn**

Ni fydd y newidiadau yn effeithio arnoch

**Ydych wedi cael bwlch datgymhwyso?**

**Do**

Ni fydd y newidiadau yn effeithio arnoch

**Naddo**

**A ydych wedi ymddeol neu a ydych yn bwriadu ymddeol cyn mis Hydref 2023?**

**Ydw** – Ar ôl **1 Hydref 2023**, bydd eich cronfa bensiwn yn cyfrifo a fyddai'r pensiwn a gronnwyd gennych yn ystod cyfnod y rhwymedi wedi bod yn fwy yn y cynllun cyflog terfynol. Os felly, caiff swm ei ychwanegu at eich pensiwn presennol.

**Nac ydw** – Pan fyddwch yn cymryd eich pensiwn, bydd eich cronfa bensiwn yn cyfrifo a fyddai'r pensiwn a gronnwyd gennych yn ystod cyfnod y rhwymedi wedi bod yn fwy yn y cynllun cyflog terfynol. Pe byddai wedi bod yn fwy, caiff swm ei ychwanegu at eich pensiwn.

* Neu o dan 60 oed os oedd gennych chi oedran ymddeol arferol gwarchodedig o 60 oed yn y cynllun cyflog terfynol.
† Os oeddech yn aelod o gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus arall rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022, a'ch bod wedi trosglwyddo'r aelodaeth honno i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, byddwch yn cael eich diogelu.

## Beth sydd angen i mi ei wneud?

Nid oes angen i chi wneud dim. Os byddwch yn gymwys i gael amddiffyniad tanategol, bydd eich cronfa bensiwn yn cyfrifo a fydd swm ychwanegol yn daladwy i chi pan fyddwch yn cymryd eich pensiwn. Os byddwch wedi ymddeol eisoes, bydd eich cronfa bensiwn yn cyfrifo a oes swm ychwanegol yn daladwy i chi ar ben eich pensiwn presennol. Bydd yn gwneud hyn cyn gynted â phosibl ar ôl 1 Hydref 2023.

## A fydd fy mhensiwn yn cynyddu?

Mae hyn yn dibynnu ar y pensiwn a gronnwyd gennych pan fyddwch yn cymryd eich pensiwn. Nid oes angen i chi wneud dim – bydd eich cronfa bensiwn yn cyfrifo a oes unrhyw bensiwn ychwanegol yn daladwy i chi.

Ni fydd pensiwn llawer o aelodau yn cynyddu gan y bydd y pensiwn a gronnwyd ganddynt yn y cynllun cyfartaledd gyrfa yn fwy na'r hyn y byddent wedi'i gronni yn y cynllun cyflog terfynol.

**Bydd eich cronfa bensiwn yn cyfrifo a fydd swm ychwanegol yn daladwy i chi pan fyddwch yn cymryd eich pensiwn**

Adran Ffyniant Bro,
Tai a Chymunedau

Local Government Pensions SAB England and Wales

# A fydd y newidiadau yn effeithio arnaf os oeddwn yn gymwys i gael amddiffyniad tanategol gwreiddiol?

Os oeddech eisoes yn gymwys o dan y rheolau gwreiddiol ynglŷn ag amddiffyniad, bydd eich cronfa bensiwn yn cyfrifo a oes swm ychwanegol yn daladwy i chi ar ben eich pensiwn presennol. Bydd yn gwneud hyn cyn gynted â phosibl ar ôl 1 Hydref 2023.

# Sut y gallaf gael rhagor o wybodaeth?

Nid yw'r daflen ffeithiau hon yn ymdrin â'r holl amgylchiadau nac yn rhoi esboniad manwl o rwymedi McCloud, a gaiff ei nodi mewn deddfwriaeth. I gael rhagor o wybodaeth o'r ffordd y gall rhwymedi McCloud effeithio arnoch, cysylltwch â'ch cronfa bensiwn. Ceir manylion cyswllt holl gronfeydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn: www.lgpsmember.org/contact-your-fund

**I gael rhagor o wybodaeth am y ffordd y bydd rhwymedi McCloud yn effeithio arnoch, cysylltwch â'ch cronfa bensiwn**

# Dyddiadau allweddol

**1 Ebrill 2012**
Efallai y bydd aelodau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol neu gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus arall cyn y dyddiad hwn yn gymwys i gael amddiffyniad

**1 Ebrill 2014**
Newidiodd y Cynllun Pensiwn Llywodraeth leol o gynllun cyflog terfynol i gynllun cyfartaledd gyrfa

**1 Hydref 2023**
Caiff rheoliadau rhwymedi McCloud ar gyfer Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol eu deddfu. Caiff pensiynau aelodau cymwys eu hadolygu o'r dyddiad hwn ymlaen

2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 | 2025

**1 Ebrill 2014 to 31 Mawrth 2022**
Cyfnod y rhwymedi, pan allai amddiffyniad tanategol fod yn gymwys i aelodau cymwys

**1 Ebrill 2022**
Daw'r amddiffyniad tanategol i ben a bydd holl aelodau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn cronni eu pensiwn ar sail cyfartaledd gyrfa heb amddiffyniad tanategol

**31 Awst 2025**
Bydd datganiadau buddion blynyddol a gyhoeddir erbyn y dyddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth am amddiffyniad tanategol ar gyfer pob aelod cymwys